

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

### Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn i Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr a gynhaliwyd yn y Swyddfeydd Dinesig ar 11 Ebrill 2019

#### Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

Mr R Davies (RD), Cadeirydd Rheolwr Grŵp - Busnes, Strategaeth a Pherfformiad  
Mrs D Davies (DD) Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth i Ddysgwyr

#### Cynrychiolwyr Ysgolion

Mr J Tarran (JT), Is-Gadeirydd Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr  
Archddiacon John Lewis  
Mr A Slade (AS) Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl  
Mrs S Jayne (SJ) Pennaeth, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr  
Mr Jeremy Evans (JE) Pennaeth, Ysgol Heronsbridge

#### Cynrychiolwyr Llywodraethwyr

Mr W Bond (WB) Ysgol Heronsbridge

#### Hefyd yn bresennol

Ms C Christy (CC) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

#### 1. Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd Ms K John, Ms A Keller a'r Cyng. Charles Smith am na allent ddod i'r cyfarfod.

#### 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2018

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod.

#### 3. Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn 2017-2018

Cyflwynodd DD ac RD brif agweddau'r adroddiad.

Cyfeiriodd DD at y rhesymau dros ohirio derbyn disgybl, fel y bo'n briodol, wrth ymdrin â cheisiadau i dderbyn neu drosglwyddo disgyblion yn ystod y flwyddyn. Y nod oedd rhoi cyfle i'r ysgol ac i'r ymgeisydd fynd i'r afael ag unrhyw faterion (os ydynt yn gymwys) ac i amharu gyn lleied â phosib ar yr ysgol a'i disgyblion.

Cyfeiriodd DD at bwysigrwydd cysondeb wrth benderfynu a ddylid gohirio derbyn disgybl. Esboniodd DD fod yn rhaid i'r dull hwn o weithio gyd-fynd â Chod Derbyn i Ysgolion 2013, sy'n nodi y gall corff sy'n derbyn disgyblion ohirio gwneud hynny os cred nad yw 'derbyn disgybl yn syth yn angenrheidiol'. Os daw cais i law am fod disgybl wedi symud tŷ, neu os yw'r awdurdod lleol yn fodlon nad yw'r disgybl hwnnw'n agored i niwed, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y disgybl yn syth. Er bod ysgolion cynradd yn aml yn fodlon derbyn unrhyw ddisgybl, ac y gall y disgybl hwnnw gychwyn yn yr ysgol yn syth, bydd yr

awdurdod lleol yn cydnabod bob tro nad yw hyn yn gyson â'r dull arferol o weithio. Bydd felly'n ystyried pob cais o'r math hwn yn ofalus iawn.

Gofynnodd JE beth fyddai'r broses petai'r ymgeisydd yn gofyn am ysgol arbennig, ac eithrio Ysgol Heronsbridge. Esboniodd DD y dilynr polisi a threfn ar wahân wrth dderbyn disgyblion i ysgolion arbennig ac i ddarpariaethau arbennig.

Hysbysodd JE yr aelodau bod cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n dadgofrestru o ysgolion ffydd ac sy'n dewis cael eu haddysg gartref. Dyfalwyd hefyd bod gwasanaethau allanol yn cael eu cynnig i'r plant hyn.

#### **4 Materion sy'n deillio o wrandawiadau apelau derbyn - er gwybodaeth ac i'w hystyried**

Hysbysodd DD aelodau'r Fforwm y cafwyd cynnydd yn nifer yr apelau. Cafwyd 19 rhwng mis Tachwedd 2018 a dyddiad y cyfarfod hwn. Esboniodd DD fod gwasgfeydd penodol yn y sir, yn arbennig felly ym Mlynnyddoedd 3 a 4, a bod gwasgfeydd ar grwpiau blwyddyn gyfan mewn rhai ardaloedd daearyddol.

Esboniodd DD fod nifer helaeth o apelau yn ymwneud â cheisiadau a wnaed ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd, lle dymunai'r rhieni leoli'u plant yn yr un ysgol ond doedd dim lle i bob un ohonynt.

Hysbysodd DD yr aelodau ynglŷn â sylwadau a wnaeth aelodau'r Panel Apelau Derbyn ynghylch Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Gynradd Pencoed. Mynegodd aelodau'r Panel, ar fwy nag un achlysur, y dylai'r ffaith bod y Pennaeth yn defnyddio coridor yn yr ysgol a elwir yn 'The Learning Plaza' fel ystafell ddosbarth olygu bod y gofod hwnnw'n cael ei gynnwys yn ffurfiol yng nghyfrifiad capasiti'r ysgol. Byddai hynny'n cynyddu'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig. Esboniodd DD y modd yr oedd yr ysgol yn defnyddio'r lle a pham nad oedd bwriad i gynnwys yr ardal hon yn Rhan 4 cyfrifiad capasiti'r ysgol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y cynnydd yn nifer y tai a thwf yn y boblogaeth yn y sir, ynghyd â'r galw ychwanegol am leoedd mewn ysgolion oherwydd hynny, yn arbennig felly mewn rhai ardaloedd daearyddol.

Nododd JT bod y niferoedd yn nosbarth meithrin Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis yn isel iawn - y capasiti yw 30 ond dim ond 15 o ddisgyblion sydd yno. Hysbysodd RD a DD yr aelodau fod nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn yn is drwy'r sir yn gyffredinol eleni. Y prif reswm dros hyn yw'r amrywiad yn y gyfradd eni.

#### **5 Polisi Derbyn i Ysgolion 2020-2021 - diweddariad er gwybodaeth**

Cadarnhaodd RD fod y Cabinet wedi cymeradwyo'r polisi.

#### **6 Polisi Derbyn i Ysgolion 2021-2022 – gofyn am farn yr aelodau ynghylch unrhyw faterion y dylid eu hystyried**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y mater hwn ac i anfon eu sylwadau at DD.

Dywedodd DD fod yn rhaid cryfhau'r polisi o ran safbwynt yr awdurdod parthed plant sipsiwn a theithwyr, ac y gellir adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r system derbyniadau ar-lein.

Cyfeiriodd RD a DD at yr ohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth Lywodraeth Cymru a atgyfnerthai'r neges mai cyfrifoldeb y corff derbyn yw gweinyddu derbyniadau ôl-16.

Trafodwyd y trefniadau presennol yn y sir ynghyd â goblygiadau unrhyw newidiad. Dywedodd CC fod dull awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf o weithio yr un fath â'r hyn sy'n digwydd ym Mhen-y-bont. Cytunai aelodau'r Fforwm fod y dull presennol o weithio yn effeithiol ac nad oedd neb yn dymuno newid y drefn. Dywedodd DD y bydd Grŵp Derbyniadau Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn parhau i ystyried y mater.

#### **7 Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig Ysgolion – newidiadau arfaethedig i'w hystyried**

Hysbysodd RD yr aelodau y byddai Nifer Derbyn Cyhoeddedig rhai ysgolion yn newid. Mae Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Gynradd Oldcastle ac Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig wedi cynyddu i 60. Hysbysodd RD yr aelodau hefyd y bydd y Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig yn cael eu hadolygu yn ffurfiol yn 2020. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai hyn yn arwain at newidiadau mawr. Nododd AS y gall cynyddu Nifer Derbyn Cyhoeddedig ysgol gael effaith andwyol glir ar yr ysgolion cyfagos a gofynnodd i'r mater hwn gael ei ystyried yn llawn mewn unrhyw adolygiad.

#### **8 Dyddiadau tymhorau ysgol 2021-2022 arfaethedig – i'w hystyried**

Cytunwyd y byddai dyddiadau'r tymor a gyhoeddwyd, fel y safent ar 5 Ebrill 2019, yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Hysbysodd JE yr aelodau y gallai fod diwrnod HMS ychwanegol.

#### **9 Adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion - diweddariad**

Hysbysodd RD yr aelodau fod yr awdurdod lleol yn comisiynu adolygiad o'r dalgylchoedd a'r goblygiadau o ran cludiant. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried a fydd symud ffiniau yn cael effaith gadarnhaol ar ysgolion y mae gor-alw am leoedd ynddynt ac ar yr ysgolion hynny nad oes galw mawr am leoedd ynddynt.

#### **10 Derbyniadau Ar-lein - diweddariad**

Soniodd DD wrth yr aelodau am sawl problem dechnegol a gafwyd. Un o'r problemau mawr oedd bod rhai rhieni wedi cyflwyno sawl cais wrth aros am gadarnhad drwy e-bost, ac yn ail-gyflwyno cais pan na chawsant gadarnhad. Esboniodd DD hefyd yr anawsterau a gododd am nad oedd modd dilysu dyddiadau geni yn y pecyn electronig. Er y gofynnwyd am y ffwythiant hwn, nid oedd modd ei roi ar waith ac roedd cyfran sylweddol o ymgeiswyr wedi cofnodi dyddiad geni'r plentyn yn anghywir. O ganlyniad i hyn, bu'n rhaid i'r tîm wneud llawer o waith ymchwilio ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bu'n rhaid cysylltu â'r ymgeiswyr i gadarnhau'r dyddiadau geni.

Dywedodd DD fod rhagor o ymgeiswyr yn y rownd derbyn disgyblion i ddosbarthiadau derbyn ac iau wedi gofyn am ffurflenni papur nag a gafwyd yn y rownd derbyn i ysgolion uwchradd.

O ran y rownd derbyn i ysgolion uwchradd ar gyfer mis Medi 2019, dywedodd DD y daeth 1,266 o geisiadau i law yn brydlon a bod yn rhain wedi'u cynnwys yn y dyraniad ar y dyddiad cynnig cenedlaethol, sef 1 Mawrth 2019. Erbyn 11 Ebrill 2019, roedd nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn hwyr wedi dod â chyfanswm y ceisiadau i 1,454. Dywedodd DD fod yr awdurdod lleol yn disgwyl cael oddeutu 1,850 o geisiadau, felly roedd nifer fawr o geisiadau yn dal heb gyrraedd.

Ategodd DD mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i ddosbarthiadau derbyn/iau ar gyfer mis Medi 2019 oedd 15 Chwefror 2019. Ar ddyddiad y cyfarfod hwn, roedd 1,108 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer dosbarthiadau derbyn a 90 ar gyfer dosbarthiadau iau.

- 11 Capasiti a derbyn i ysgolion ar draws y sir - diweddariad**  
Esboniodd DD fod Blynnyddoedd 3, 4 a 6 yn achosi gwasgfydd yn y sir yn ogystal â mewn rhai ardaloedd daearyddol. Cytunwyd y byddai DD yn cyflwyno gwybodaeth ar ddiwedd y cyfarfod ynghylch monitro capasiti.
- 12 Derbyn plentyn teulu o ffoaduriaid sydd wedi'i adsefydlu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont at Ogwr i ysgol**  
Hysbysodd DD yr aelodau fod un teulu arall o ffoaduriaid yn cael ei adsefydlu yn y sir a bod y plentyn wedi'i dderbyn i'r ysgol gynradd leol.
- 13 Unrhyw fater arall**  
Ni chodwyd dim materion eraill.
- 14 Dyddiad y cyfarfod nesaf**  
Cytunwyd y cysylltid â'r aelodau ar ddechrau tymor yr hydref â dyddiadau posib.